

BEVAN, THOMAS ('Caradawc ' neu ' Caradawc y Fenni,' 1802 - 1882), hynafiaethydd

Enw: Thomas Bevan
Ffugenw: Caradawc, Caradawc Y Fenni
Dyddiad geni: 1802
Dyddiad marw: 1882
Priod: Catherine Bevan (née Anthony)
Rhiant: Lewis Bevan
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: hynafiaethydd
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: William Williams

Ganwyd 13 Medi 1802, ym Melin Maesmawr, ger Talybont, sir Frycheiniog, mab Lewis Bevan. Addysgwyd ef yn yr ysgol fechan yng nghapel y Bedyddwyr, Llangynidr, ac yna mewn ysgol breifat yn y Fenni. Wedi bwrw'i brentisiaeth mewn siop groser yn y Fenni, aeth i Lundain, lle bu'n gwasanaethu yn siop ei ewythr yn agos i Tower Hill; wedi hynny bu'n gweithio mewn siop yn Clydach Works, sir Frycheiniog (a adnabyddid fel Llanelly Works).

Yno daeth i gyffyrddiad a nifer o Gymry a oedd yn ymddiddori yn llenyddiaeth Cymru a'r eisteddfod - David Lewis (mab y Parch. James Lewis, Llanwenarth), [Thomas Williams](#) ('Gwilym Morganwg'), a John Morgan (y ' Rhifyddwr Egwan ' yn *Seren Gomer*). Daeth i ymgynabyddu ag arddull lenyddol trwy ddilyn dadleuon [Thomas Price](#) ('Carnhuanawc') a [David Owen](#) ('Brutus') ar dlodi'r iaith a llenyddiaeth Gymraeg yn *Seren Gomer*.

Priododd Catherine Anthony, merch Benjamin Anthony, Llanwenarth, 17 Gorffennaf 1826, ac fe'i cysylltodd ei hun â'i dad-yng-nghyfraith mewn busnes cario nyddau mewn gwagenni ar ffyrdd ac ar gamlas.

Penodwyd ef yn ysgrifennydd Cymdeithas Cymreigyddion y Fenni yn 1833. Ymddiswyddodd yn 1839, ac yn 1843 dewiswyd ef yn feistr tloty undeb y Fenni, ond ni pheiodd a gweithio'n ddiwyd dros Gymdeithas y Cymreigyddion. Yn 1863 cychwynnodd fasnach gwerthu glo a halen yn y Fenni.

Bu farw 10 Rhagfyr 1882, a'i gladdu ym mynwent capel y Bedyddwyr, Llanwenarth, lle y bu'n aelod am dros hanner canrif.

Ychydig fu ei gynnyrch llenyddol, er y medrai nyddu englyn ar bron bob amgylchiad. Yn eisteddfod y Fenni, 1835, gwobrwyd ef am draethawd ar ' Hanes Gwent dan lywodraeth Rufeinig,' ond ni chyhoeddwyd mohono (N.L.W. MS. 13959). Ei gyfraniad pennaf i Gymru oedd ei waith ynglyn â Chymdeithas Cymreigyddion y Fenni; iddo ef, yn anad neb, y mae llwyddiant yr eisteddfodau a gynhaliwyd o dan nawdd y gymdeithas i'w briodoli.

Awdur

William Williams, (1885 - 1950)

Ffynonellau

The Red Dragon, vi, 1884, 97-105 (erthygl, a darlun, gan John Davies)

Robert Williams, *Enwogion Cymru. A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* (1852)

H. Blackwell, [NLW MSS 9252A: A Dictionary of Welsh Biography](#)

Catalogau Ll.G.C.

NLW MSS 13958-62 (llawysgrifau Cymreigyddion y Fenni)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734418](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

